## Sut i gysylltu â ni i'n hysbysu am doriad trydan:

Peidiwch â chymeryd yn ganiataol ein bod yn gwybod eich bod heb drydan. Ffoniwch ni cyn gynted ag y bo modd. Os ydym yn gwybod yn barod fe ddylem allu dweud wrthych pa bryd yr ydym yn disgwyl i chi gael eich cyflenwad trydan yn ôl.

Ffoniwch ni ar :

**De Orllewin Lloegr – 0800 365900**

**De Cymru – 0800 0520400**

(Gallwch ddefnyddio Typetalk ar y gwasanaeth hwn)

*Western Power Distribution (South West) plc and*
*Western Power Distribution (South Wales) plc*
*Registered in England and Wales No. 2366894 and 2366985.*
*Registered Office: Avonbank, Feeder Rd, Bristol, BS2 0TB*

# TORIADAU TRYDAN – CYNGOR DEFNYDDIOL

Awarded for excellence

Corporate member of Plain English Campaign. Committed to clearer communication. 10

WESTERN POWER DISTRIBUTION
*Serving the South West and Wales*

# Toriadau Trydan – Cyngor Defnyddiol

## Byddwch yn barod am doriad trydan:

- Cadwch dortsh neu oleuadau gerllaw y gellir eu weindio neu sy'n rhedeg ar fatri/ynni solar. Mae'n well osgoi canhwyllau a thwymwyr paraffin.
- Cadwch radio gerllaw gellir ei weindio neu sy'n rhedeg ar fatri/ynni solar.
- Bydd llawer o ffonau modern, yn enwedig rhai digidol neu ddi-wifren yn peidio a gweithio yn ystod toriad trydan. Cadwch un cyffredin i'w ddefnyddio.
- Gwarchodwch offer trydan sensitif megis cyfrifiaduron neu beiriannau ffacs gydag amddiffynnydd ymchwydd neu Gyflenwad Trydan Parhaol (Uninterruptible Power Supply, UPS). Gwelwch ein gwefan westernpowerdistribution.co.uk am ragor o fanylion.
- Os oes gennych lifft grisiau sy'n rhedeg ar y prif gyflenwad trydan, sicrhewch bod handlen y gellir ei rhyddhau gyda llaw er mwyn dychwelyd y lifft yn ddiogel i'r llawr daear os y bydd yn rhoi'r gorau i weithio.
- Mae gan lawer o lifftiau grisiau fatri wrth gefn. Os nad oes batri o'r fath ar eich lifft chi, mae'n bosibl yn gallwch gael gosod un. Cysylltwch â'r gwneuthurwr am fanylion.
- Os oes gennych chi neu aelod o'ch teulu broblem iechyd ddifrifol sicrhewch bod cynlluniau yn barod rhag i'r cyflenwad gael ei dorri am gyfnod hir. Sicrhewch bod gan unrhyw offer meddygol fatri wrth gefn.

## Beth i'w wneud yn ystod toriad trydan:

- Edrychwch i weld os yw'ch cymdogion wedi colli eu cyflenwad nhw. Os nad ydynt wedi ei golli, mae'n bosibl mai gyda'ch ffiwsiau chi y mae'r broblem.
- Edrychwch i weld os yw'ch switsh tripio ymlaen. Os yw'ch switsh tripio wedi gweithredu, diffoddwch eich holl offer trydanol a cheisiwch ailosod y trip. Efallai y bydd y cyflenwad yn dychwelyd.
- Os nad yw'r switsh tripio wedi gweithredu, ac os na allwch weld rheswm arall, gadewch i ni wybod.
- Diffoddwch a dad-blygiwch unrhyw offer trydanol sy'n mynd yn boeth gan for perygl i chi anghofio eu bod ymlaen pan fydd y trydan yn dychwelyd.
- Diffoddwch a dad-blygiwch unrhyw offer sensitif megis cyfrifiaduron neu beiriannau ffacs.
- Rhowch flanced dros y rhewgist (peidiwch â gorchuddio'r griliau) a pheidiwch a'i agor oni bai bod wir raid i chi. Mae'n bosibl y gallwch hawlio am gynnwys y rhewgist sydd wedi ei ddifetha ar eich yswiriant cartref.
- Yn ystod tywydd oer gwisgwch yn gynnes gan ddefnyddio sawl haen o ddillad.
- Os nad oes gennych nwy ar gyfer coginio, efallai y gall eich cymdogion roi cymorth i chi gyda diodydd cynnes a bwyd poeth.
- Yn ystod tywydd drwg, ni allwn adfer cyflenwad i'ch eiddo chi yn unig am resymau technegol. Ein nod yw adfer cyflenwadau i bawb cyn gynted ag y gallwn. Os ydych yn cael trafferthion, cysylltwch â ni – mae gennym drefniant gyda'r WRVS i gynnig cymorth i gwsmeriaid sydd fwyaf o'i angen.
- Os ydych yn dioddef o broblemau iechyd difrifol ffoniwch linell gymorth Galw Iechyd Cymru ar 0845 4647. Mewn argyfwng, cysylltwch â'ch ysbyty lleol.

## Sut i gofrestru gyda ni:

Os ydych mewn oed, yn dioddef o salwch cronig neu yn anabl gallwch gofrestru gyda'n Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth. Ewch i'n gwefan HYPERLINK "http://www.westernpower.co.uk" www.westernpower.co.uk am ragor o fanylion

Ffoniwch ni ar 0845 6012989

(Gallwch ddefnyddio Typetalk ar y gwasanaeth hwn)

Neu anfonwch e-bost at
wpdpriorityservices@westernpower.co.uk